

## POLISI MOESeg YMCHWIL

Dyddiad	Pwrpas cyhoeddi/Disgrifiad o'r newid	Cwblhawyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb
Rhagfyr 2005	Cyhoeddwyd gyntaf	
13eg Gorffennaf, 2007	Adolygwyd	
12fed Tachwedd 2009	Adolygwyd	
18fed Mehefin 2012	Adolygwyd	
6ed Mawrth 2013	Adolygwyd	
9 Tachwedd 2015	Adolygwyd a chymeradwywyd gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol	
10 Tachwedd 2016	Adolygwyd a chymeradwywyd gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol	
9fed Tachwedd 2018	Adolygwyd a chymeradwywyd gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol	

Swyddog Polisi	Uwch swyddog â chyfrifoldeb	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio	Ysgrifennydd y Brifysgol	Pwyllgor Moeseg y Brifysgol	9 Tachwedd, 2018

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd*

## **1. RHAGARWEINIAD**

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r polisi rheoli moeseg ymchwil a'r broses adolygu moeseg ymchwil ym Mhrifysgol Bangor.

Mae'r polisi'n berthnasol i bob aelod staff a myfyriwr sy'n ymwneud ag ymchwil ym Mhrifysgol Bangor, yn cynnwys staff a myfyrwyr sy'n gwneud gwaith ymchwil naill ai yn y Brifysgol, lle mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil yn aelodau staff y Brifysgol a / neu yn fyfyrwyr, neu y tu allan i'r brifysgol, yn ogystal ag unrhyw rai nad ydynt wedi eu cyflogi gan y brifysgol ond sydd â chaniatâd i wneud gwaith ymchwil yn y brifysgol (cyfeirir at y rhain i gyd fel ymchwilwyr).

Mae'r brifysgol yn cefnogi naw egwyddor allweddol yn ymwneud ag ymchwil foesegol ac mae'n disgwyl i'w holl ymchwilwyr gadw at yr egwyddorion hyn. Mae'r polisi'n disgrifio'r ffordd y bydd y brifysgol yn sicrhau y cedwir at y prif egwyddorion hyn.

## **2. EGWYDDORION**

- i. Mae Datganiad Helsinki<sup>1</sup> yn nodi egwyddorion moesegol pwysig ar gyfer ymchwil meddygol yn cynnwys gwrthrychau dynol y mae'n rhaid eu dilyn yn unol â gofynion y Datganiad. Ymhellach, ym mhob ymchwil y bydd pobl yn cymryd rhan ynddi, rhaid sicrhau caniatâd, urddas, hawliau, diogelwch a lles y rhai sy'n cymryd rhan, fel yr amlinellir yn y Datganiad.
- ii. Dylai ymchwil gael ei gynllunio, ei adolygu a'i gyflawni i sicrhau dilysrwydd ac ansawdd fel y nodir yng Nghod Ymarfer y Brifysgol ar gyfer Sicrhau Dilysrwydd Academaidd a Sicrhau Ansawdd mewn Ymchwil<sup>2</sup>.
- iii. Ac eithrio ymchwil arsylwadol, mae'n rhaid i gyfranogwyr gael gwybodaeth lawn am ddiben a dulliau'r ymchwil a'r defnydd posib a wneir o'r ymchwil, yr hyn mae cymryd rhan yn yr ymchwil yn ei olygu, ac a oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â'r gwaith, yn amodol ar yr eithriad a nodir yn 5.1 [b] iv) ac ar gymeradwyaeth gan y pwyllgor moeseg academaidd fel y nodir yn 5.1 [a].
- iv. Mae'n rhaid parchu cyfrinachedd y deunyddiau a'r wybodaeth a ddarperir gan rai sy'n cymryd rhan mewn ymchwil a chadw'r ymatebwyr yn ddiennw.
- v. Bydd pobl fel rheol yn cymryd rhan mewn ymchwil yn wirfoddol a dylid cadw at ofynion Adran 4.1[d] ar ganiatâd. Yn yr eithriadau prin hynny pan nad yw cymryd rhan yn yr ymchwil yn wirfoddol, mae'n rhaid i'r ymchwil gael ei wneud o fewn meini prawf a bennwyd gan y corff proffesiynol perthnasol.
- vi. Mae'n rhaid sicrhau cyn lleied o risg â phosib i bobl sy'n cymryd rhan mewn ymchwil.
- vii. Mae'n rhaid i annibyniaeth ymchwil fod yn amlwg, ac mae'n rhaid amlygu unrhyw wrthdaro buddiannau.
- viii. Mae'n rhaid i bob ymchwil ar anifeiliaid gadw at egwyddorion amnewid, lleihau a mireinio.
- ix. Cymeradwyr ymchwil gyda goblygiadau moesegol gan adolygiad annibynnol gan gymheiriaid.

## **3. CYFRIFOLDEBAU**

### **3.1 Cyfrifoldebau Unigol**

#### **[a] Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil)**

Y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil) sy'n gyfrifol am reolaeth gyffredinol ymchwil.

#### **[b] Deoniaid Colegau**

Deoniaid colegau sy'n gyfrifol am drefniadau adolygu moeseg lleol. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod o leiaf un pwyllgor moeseg ymchwil academaidd (PMYA) sy'n bodloni gofynion eu coleg ai ysgolion wedi

---

1 <http://www.wma.net/en/30publications/10policies/b3/index.html>

2 <https://www.bangor.ac.uk/regulations/BUCode03-v201201-cym.pdf>

ei sefydlu gyda chyfansoddiad, cylch gorchwyl a phroses fonitro ac adolygu priodol. Fel arall, mae'n rhaid bod cytundeb i gynnal adolygiad moeseg ar gyfer y coleg neu'r ysgol trwy PMYA priodol arall.

### **3.2 Cyfrifoldebau'r Pwyllgor**

*(gweler atodiad 2 am gyfansoddiad a chylch gorchwyl y pwyllgorau hyn)*

#### **[a] Pwyllgor Moeseg y Brifysgol**

Mae Pwyllgor Moeseg y Brifysgol yn un o bwyllgorau sefydlog y Cyngor ac mae'n gyfrifol am bennu polisi ar faterion moesegol. Mae'r Pwyllgor Moeseg hefyd yn rhoi cyngor ar strategaethau eang ar gyfer moeseg ac mae'n monitro perfformiad y brifysgol drwydd a thro yn hytrach nag ystyried materion unigol, megis cynigion ymchwil.

Mae'r Pwyllgor Moeseg wedi datganoli cyfrifoldeb dros y broses adolygu a chymeradwyo moesegol i'r pwyllgorau moeseg academiaidd perthnasol. Mae cadeiryddion y pwyllgorau moeseg ymchwil academiaidd yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Moeseg a fydd yn cynnwys cyflwyno adroddiad blynyddol i gyfarfod cyntaf y flwyddyn academiaidd. Gallent gyfeirio unrhyw faterion moesegol sy'n achosi pryder at yr ysgrifennydd, a fydd yn gwneud trefniadau i sefydlu is-bwyllgor o'r Pwyllgor Moeseg i ystyried y mater a gwneud argymhellion.

#### **[b] Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol (AWERB)**

Mae'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn gyfrifol am adolygu a chymeradwyo'n foesegol yr holl ymchwil yn y brifysgol sy'n ymwneud ag anifeiliaid, fel y nodir yn y *Broses Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol*. Mae'r AWERB yn adrodd i Bwyllgor Moeseg y Brifysgol.

#### **[c] Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Academiaidd (PMYA)**

Diffinnir pwyllgor moeseg academiaidd fel corff amlddisgyblaethol ac annibynnol sy'n gyfrifol am adolygu gwaith ymchwil y mae pobl yn cymryd rhan ynddo er mwyn sicrhau bod eu hurddas, eu hawliau a'u lles yn cael eu diogelu.

Mae annibyniaeth PMYA yn seiliedig ar ei aelodaeth, ar reolau llym yn ymwneud â gwrthdaro buddiannau<sup>3</sup> ac ar fonitro rheolaidd ac atebolrwydd dros ei benderfyniadau. Bydd cyfansoddiad PMYA yn adlewyrchu'r amrywiaeth arbenigedd a phrofiad sydd ei angen er mwyn darparu adolygiad medrus a thrwyadl. Mae PMYA yn adrodd i Bwyllgor Moeseg y Brifysgol ond dylid cyflwyno'r adroddiadau hefyd i bwyllgor ymchwil y coleg perthnasol a chyfarwyddwr ymchwil y coleg hwnnw (lle bo'n berthnasol).

Dylai fod gan bob coleg o leiaf un PMYA (sy'n bodloni anghenion y coleg hwnnw a'i ysgolion), ond mewn achosion lle rhagwelir y bydd nifer y cynigion ymchwil mewn Coleg / Ysgol yn debyg o fod yn isel, dylid dod i gytundeb gyda PMYA Coleg / Ysgol arall i ystyried ceisiadau yn ôl yr angen. Dylid hysbysu Pwyllgor Moeseg y Brifysgol am unrhyw gytundeb o'r fath a rhaid i'r pwyllgor gytuno arno.

Mae PMYA yn gyfrifol am y canlynol:

- i. Adolygu pob ymchwil sy'n cynnwys pobl a wneir gan unigolion a gyflogir gan neu a gofrestrir fel myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor;
- ii. Sicrhau bod prosesau adolygu moesegol yn annibynnol, cymwys ac amserol;
- iii. Diogelu urddas, hawliau a lles cyfranogwyr ymchwil;
- iv. Llunio eu polisiâu a'u trefniadau lleol eu hunain yn unol â'r Polisi.

---

<sup>3</sup> Fel y nodir yn y Polisi ar Ddatganiadau Buddiant sydd ar gael ar wefan y Brifysgol

- v. Penodi aelodau lleyg<sup>4</sup>. Byddai hefyd yn fanteisiol cael o leiaf un aelod sy'n fyfyrwr<sup>5</sup>;
- vi. Sicrhau bod dulliau gweithredu wedi eu sefydlu a'u bod yn hysbys ar gyfer adolygiad cyfoedion ac adolygiad brys.
- vii. Sicrhau bod polisiau, canllawiau a ffurflenni priodol ar gyfer y pwyllgor moeseg academiaidd dan sylw ar gael yn hwylus ar wefan y Coleg / Ysgol ac yn hysbys i staff a myfyrwyr fel ei gilydd.
- viii. Sicrhau bod gweithdrefnau clir yn bodoli yng nghyswllt adrodd am ddigwyddiadau annisgwyl a allai fod yn her i ymarferiad moesegol yr ymchwil neu a allai roi sail i roi terfyn ar yr astudiaeth.

Dylai PMYA gwrdd o leiaf ddwywaith bob blwyddyn academiaidd fel rheol. Dylai dyddiadau cyfarfodydd pwyllgorau moeseg academiaidd, a'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i'w hystyried, fod ar gael ddigon o amser ymlaen llaw.

#### **[d] Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif**

Mae'r Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif yn gyfrifol am y broses gymeradwyo a chofrestru ar gyfer projectau ymchwil sensitif a wneir gan aelodau staff a myfyrwyr ôl-raddedig yn y brifysgol, fel yr amlinellir yn y *Drefn i Gymeradwyo a Chofrestru Projectau Ymchwil Sensitif*<sup>6</sup>.

### **4. RHEOLI MOESG YMCHWIL**

Yn yr adran hon ceir canllawiau helaethach ar egwyddorion moesegol yn ymwneud ag ymchwil gyda phobl ac ymchwil gydag anifeiliaid, yn ogystal â chanllawiau ar brofion clinigol, ymchwil y tu allan i'r Deyrnas Unedig, nawdd a chanlyniadau amgylcheddol ymchwil.

#### **4.1 Ymchwil y mae Pobl yn cymryd rhan ynddo**

Mae'r canllawiau canlynol yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid cadw atynt ym mhob ymchwil y mae pobl yn cymryd rhan ynddo, neu sy'n ymwneud â deunydd biolegol a gafwyd o bobl neu ddata dynol.

##### **[a] Y Brif Ystyriaeth**

Y brif ystyriaeth mewn unrhyw ymchwil y mae pobl yn cymryd rhan ynddo yw caniatâd, urddas, hawliau, diogelwch a lles y rhai sy'n cymryd rhan. Mae gan ymchwilwyr gyfrifoldeb i ofalu am yr unigolion sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil ac maent yn atebol am eu lles. Os daw cadeiryddion PMYA ar draws unrhyw bryderon moesegol neilltuol, gallent gyfeirio'r mater at gadeirydd Pwyllgor Moeseg y Brifysgol.

Dylid gwneud pob ymdrech i:

- Leihau nifer y bobl sydd eu hangen i gymryd rhan ar sail ymarfer da ystadegol
- Leihau'r holl beryglon posib i les y rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil
- Hyrwyddo i'r eithaf ansawdd ac effaith yr ymchwil a pherthnasedd yr ymchwil.

##### **[b] GIG**

Yn achos ymchwil sy'n ymwneud â'r GIG (gweler adran 5), mae'n rhaid hefyd cael cymeradwyaeth gan y sefydliad GIG sy'n gyfrifol, ond mewn achosion o'r fath dylai'r cynnig ymchwil fynd gerbron y PMYA perthnasol yn gyntaf. Bydd y rhain yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer:

- i. recriwtio pobl i gymryd rhan gan roi gwybodaeth ddigonol iddynt

4 Gall aelodau lleyg fod yn gyn aelodau staff y brifysgol ar yr amod nad ydynt wedi gweithio i'r brifysgol mewn unrhyw ffordd yn y pum mlynedd cyn eu penodi i'r pwyllgor.

5 Efallai y byddai PauMYA yn dymuno ystyried penodi myfyrwr PhD neu fyfyrwr ôl-ddoethurol fel cynrychiolydd gan y byddent fel rheol yn fyfyrwyr yn y brifysgol am fwy na blwyddyn.

6 <https://www.bangor.ac.uk/planning/documents/procedure-approval.pdf>

- ii. cymhwyster y rhai sy'n cymryd rhan a chyfrinachedd;
- iii. casglu, storio ac adfer data;
- iv. dadansoddi'r wybodaeth ac adrodd arni.

### **[c] Gofynion Cyfreithiol**

Mae'n rhaid i'r ymchwil gadw at yr holl ofynion cyfreithiol a chanllawiau a gynhyrchwyd gan y cyrff proffesiynol priodol. Mae gofynion y Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) a'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (DDD18) yn datgan bod rhaid i bob gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion a geir trwy waith ymchwil gael ei chadw'n hollol gyfrinachol a diogel am y cyfnod o amser a bennir gan ddeddfwriaeth, neu gan ganllawiau a ddarparwyd naill ai gan gyrff cyllido neu gyrff proffesiynol neu *Restr Dal Gafael Cofnodion y Brifysgol*<sup>7</sup>, pa un bynnag yw'r mwyaf caeth. Ni ddylai data ymchwil gael eu cyflwyno mewn ffordd a allai ddatgelu pwy yw unrhyw unigolyn, oni bai bod yr unigolion wedi cael gwybod am hynny ymlaen llaw a chydsynio'n bendant â hynny.

Dim ond mewn achosion eithriadol y ceir torri cyfrinachedd cyfranogwyr ymchwil a hynny pan fo tystiolaeth neu amheuaeth bod y perygl i iechyd, lles neu ddiogelwch rhywun sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil (yn cynnwys plant) yn drech na'r angen i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol, neu lle bo safonau ymddygiad proffesiynol wedi cael eu torri. Pan fo eithriadau mewn lle dylid hysbysu cyfranogwyr o'r cyfyngiad ar unrhyw gyfrinachedd. Mewn amgylchiadau o'r fath dylai ymchwilwyr godi'r pryder gyda'r awdurdod priodol, a all gynnwys y Goruchwyliwr, cyn gynted â phosibl.

Mae'n rhaid i holl ymchwil Prifysgol Bangor lynu wrth ofynion Polisiâu Diogelu Data a Diogelu'r Brifysgol.

### **[d] Cydsyniad**

Mae'n rhaid cael mynegiant diamwys, gwybodus a phenodol o ddymuniadau unigolyn a hwnnw wedi'i roi o wirfodd gan bob un sy'n cymryd rhan mewn ymchwil ac eithrio yn achos ymchwil sydd o reidrwydd yn ymwneud â thwyll fel y nodir yn 5.1 [b] iv) ac yn amodol ar gymeradwyaeth gan bwylgor moeseg academiaidd fel y nodir yn 5.1 [a].

Dylai'r rhai sy'n cymryd rhan fod yn ymwybodol o beryglon a manteision posib cymryd rhan, os oes rhai. Mae'n rhaid iddynt ddeall hefyd eu bod yn cymryd rhan yn gwbl wirfoddol ac y gallant dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Pan mae cleifion, neu ddefnyddwyr gwasanaeth, yn cymryd rhan mewn ymchwil, mae'n rhaid rhoi gwybod iddynt na fydd tynnu'n ôl o broject ymchwil yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar ansawdd unrhyw ofal neu driniaeth y maent yn ei gael. Ni ddylid rhoi unrhyw bwysau ar neb i gymryd rhan. Dylid defnyddio unrhyw ddata ac/neu ddeunyddiau a gesglir i'r diben a gytunwyd, a rhaid i ymchwilwyr sylweddoli bod rhaid iddynt gael yr un lefel o gydsyniad gan y cyfranogwyr drachefn os dymunant eu defnyddio i unrhyw ddiben arall.

Mae'n rhaid i ymchwil yn ymwneud â thwyll gadw at y canllawiau manwl a bennwyd gan y corff proffesiynol a'r pwyllgor moeseg academiaidd perthnasol ac mae'n rhaid iddo gael cymeradwyaeth foesegol lawn gan y pwyllgor moeseg academiaidd perthnasol, fel y nodir yn 5.1 [a].

Pan fydd yn ofynnol gan ysgolion bod myfyrwyr yn cymryd rhan mewn ymchwil fel rhan o'r profiad dysgu, ni ddylai'r ysgol gynnwys y myfyrwyr mewn ymchwil os bernir bod mwy na'r risg lleiaf posib ynghlwm wrth yr ymchwil (gweler 5.1 [b] isod).

---

7 Ar gael ar dudalennau gwe y Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio

## [e] Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Hawdd eu Niweidio

Dylid cymryd gofal mawr wrth wneud ymchwil gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion hawdd eu niweidio, e.e. rhai gyda phroblemau iechyd meddwl neu anabledau dysgu, ac mae'n rhaid cael cymeradwyaeth pwyllgor moeseg academiaidd ym mhob achos. Mae'n rhaid i ymchwilwyr fodloni eu hunain bod gwir angen cynnwys y grwpiau hyn yn yr ymchwil a gallu cyfiawnhau hynny i'r pwyllgor moeseg academiaidd perthnasol. Mae'n rhaid i ymchwilwyr gadw mewn cof bod nifer o faterion cydsyniad penodol yn ymwneud ag ymchwil ar blant, pobl ifanc ac oedolion hawdd eu niweidio a dylid llunio cyfarwyddiadau'n glir a gofalus. Mae'n bwysig bod y rhai sy'n rhoi cydsyniad yn cael eu cynnwys yn yr holl gamau, yn arbennig os bydd problemau'n codi yn ystod yr ymchwil. Gall cyngor ar y materion hyn fod ar gael gan gymdeithasau a grwpiau cefnogi perthnasol. Dylid hefyd cysidro gofynion *Polisi Diogelu*'<sup>8</sup> Brifysgol.

Mae'n rhaid i ymchwilwyr, yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005, gadarnhau bod gan unigolyn y gallu meddyliol i roi cydsyniad pan ofynnir amdano, a dim ond pan fo ymchwil yn gysylltiedig â'u diffyg gallu neu'r driniaeth ohono y ceir ymgymryd ag ymchwil yn ymwneud ag unigolyn nad yw'n meddu ar alluedd meddyliol. Os oes unrhyw amheuaeth gan yr ymchwilydd, dylai geisio asesiad ffurfiol gan weithiwr proffesiynol â'r cymwysterau priodol. Ni ddylid cynnwys oedolion heb alluedd meddyliol mewn ymchwil os gellir gwneud yr un ymchwil neu ymchwil debyg gyda phobl â gallu meddyliol.

Mae'n rhaid i ymchwilwyr, gyda chyfarwyddyd gan y PMYA, gydymffurfio hefyd ag ymrwymadau cyfreithiol cyn bwrw ymlaen â'r ymchwil (megis cael eu clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dechrau ar ymchwil yn ymwneud â phlant, pobl ifanc neu oedolion hawdd eu niweidio). Mae'n rhaid i swyddogaeth, cyfrifoldebau a hawliau unigolion y mae'r sawl sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil yn ddibynnol arnynt (e.e. rhieni, gofawyr a chefnogwyr) gael eu cydnabod a'u hegluro'n glir. Ceir rhagor o gyfarwyddyd ar yr ystyriaethau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc ym *Mholisi Diogelu* y brifysgol.

### 4.2 Ymchwil yn cynnwys Meinwe Ddynol

Ers sefydlu'r Awdurdod Meinwe Ddynol, mae'n rhaid dilyn paramedrau cyfreithiol caeth wrth storio a defnyddio meinwe ddynol. Mae'r Ddeddf Meinwe Ddynol 2004 yn darparu fframwaith i reoleiddio'r dull o storio a defnyddio organau a meinwe o'r byw, a'r dull o dynnu, storio a defnyddio organau a meinwe o'r meirw at ddibenion penodol sy'n gysylltiedig ag iechyd ac i'w harddangos yn gyhoeddus.

Mae'n rhaid i unrhyw weithgaredd yn y brifysgol sy'n ymwneud â defnyddio organau, meinwe a chelloedd (yn cynnwys poer, gwaed etc. sy'n cynnwys celloedd), ddilyn amodau safonol caeth ac mae'n rhaid i ymchwilwyr sicrhau bod eu defnydd o feinwe ddynol wedi ei gymeradwyo'n foesebol trwy'r *Integrated Research Application System (IRAS)*<sup>9</sup> a'u bod wedi sicrhau'r cydsyniad priodol. Mae'n rhaid i ymchwilwyr sy'n dymuno cynnal ymchwil yn defnyddio meinwe ddynol gysylltu gydag Unigolyn Dynodedig (DI) Meinwe Dynol y Brifysgol, cyn cychwyn unrhyw ymchwil.

### 4.3 Ymchwil gydag Anifeiliaid

Mae'r canllawiau canlynol yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid cadw atynt mewn ymchwil gydag anifeiliaid.

Mae'n rhaid i ymchwil gydag anifeiliaid gael ei gynnal yn unol â'r Ddeddf Anifeiliaid (Trefniadau Gwyddonol) 1986 ac mae'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol (AWERB). Dylai gydymffurfio hefyd â *Phroses Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol* y brifysgol.

---

<sup>8</sup> Ar gael o wefan y Brifysgol

<sup>9</sup> <https://www.myresearchproject.org.uk/>

Lle bynnag y bo modd dylid ceisio peidio â defnyddio anifeiliaid a dylai ymchwilydd allu dangos eu bod wedi ystyried yr holl ddewisiadau eraill. Mae'n rhaid cadw at yr holl ofynion cyfreithiol a chanllawiau a gynhrychwyd gan gyrff priodol eraill, yn arbennig rheoliadau'r Swyddfa Gartref. Mewn ymchwil gydag anifeiliaid, mae'n rhaid cael trwyddedau gan y Swyddfa Gartref ar gyfer yr ymchwilydd, y project a, lle bo'n berthnasol, yr adeilad. Mae'n rhaid cydymffurfio â gofynion y drwydded bob amser. Ceir gwybodaeth am weithdrefnau'r Swyddfa Gartref ar ei gwefan.

#### **4.4 Ymchwil Prifysgol Bangor y tu allan i'r DU**

Ceir lefel ychwanegol o gyfrifoldeb ac archwilio'n gysylltiedig ag ymchwil a wneir y tu allan i'r DU, neu sy'n cynnwys partneriaid o'r tu allan i'r DU, lle bo, o leiaf, y prif ymchwilydd neu'r cyd-ymchwilydd yn aelod o staff Prifysgol Bangor a bod yr ymchwil wedi cael ei chymeradwyo gan PMYA, a dylai ymchwilydd sicrhau eu bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw ofynion cyfreithiol a gofynion y cyrff proffesiynol perthnasol. Dylai ymchwilydd gadw mewn cof y gwahaniaethau rhwng sefyllfa sifil, gyfreithiol ac ariannol ymchwilydd ac academyddion cartref a thramor. Os gwneir yr ymchwil i gyd mewn gwlad dramor, dylai ymchwilydd ymgyfarwyddo â gofynion deddfwriaethol a gofynion eraill y wlad honno. Dylai unrhyw ymchwil gyda phobl a wneir y tu allan i'r DU gael ei gymeradwyo gan bwyllgor moeseg academiaidd, dylid nodi hefyd bod yn rhaid cyfeirio at Safonau a Dulliau Gweithredu Polisi Teithio Dramor y Brifysgol, a'r Rhestr Wirio ar gyfer teithio dramor. Mae'r rhain ar gael ar wefan lechyd a Diogelwch y Brifysgol. Mae'n rhaid i ymchwilydd sy'n teithio dramor yn gysylltiedig gydag ymchwil sicrhau fod asesiad risg priodol wedi ei gwblhau, a'i gymeradwyo ar lefel briodol o fewn yr Ysgol / Coleg.

Os gwneir ymchwil mewn sefydliad mewn gwlad dramor, dylid hefyd gofyn am gymeradwyaeth gan y pwyllgor perthnasol yn y sefydliad hwnnw (lle bo'n bosib). Os nad oes gan y sefydliad tramor weithdrefnau moesegol o'r ddau du, dylai cadeirydd y PMYA perthnasol ysgrifennu at yr unigolyn perthnasol yn y sefydliad tramor yn gofyn am wybodaeth am weithdrefnau'r sefydliad. Ar ôl derbyn ac ystyried y wybodaeth, dylid cymeradwyo'r ymchwil, os bydd angen, yn y dull arferol gan ddilyn gweithdrefnau mewnol y brifysgol a amlinellir yn adran 5 isod.

Os nad oes gan y sefydliad tramor weithdrefnau moesegol, yna dylai'r PMYA perthnasol yn y brifysgol ystyried yr ymchwil.

#### **4.5 Cymeradwyaeth Foesegol gan sefydliadau eraill**

Bydd cymeradwyaeth foesegol gan brifysgolion neu sefydliadau eraill yn y Deyrnas Unedig a thramor fel rheol yn dderbyniol fel prawf bod project penodol wedi cael ei adolygu'n briodol, a'i fod wedi cael ei gymeradwyo. Rhagwelir y byddai hyn yn berthnasol fel rheol, er enghraifft, lle mae Prifysgol Bangor yn cyfrannu at y project, neu le mae ymchwilydd o sefydliad arall yn dymuno casglu data ymchwil gan staff a/neu fyfyrwyr yn y Brifysgol.

Fodd bynnag, yn y cyfryw achosion i gyd, dylid cyfeirio hysbysiad o'r cymeradwyaeth moesegol, ynghyd â phrotocol yr ymchwil, at Gadeirydd y PMYA perthnasol. Gall y Cadeirydd ddewis derbyn y gymeradwyaeth a chaniatáu i'r ymchwil fynd yn ei blaen, neu bennu bod y cynnig yn cael ei adolygu'n ychwanegol gan PMYA perthnasol y Brifysgol.

#### **4.6 Noddi Ymchwil**

Ni ddylai ymchwilydd addo derbyn neu roi'r argraff eu bod yn derbyn amodau sy'n groes i'w cod moeseg proffesiynol neu i'w hymrwymadau dan eu contract cyflogaeth. Mae'n rhaid cytuno ymlaen llaw â thelerau unrhyw ymchwil sy'n cael ei wneud ar ran noddwr. Lle bynnag y gwneir y gwaith mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill, naill ai yn y DU neu dramor, mae'n hanfodol sicrhau bod polisiâu'r sefydliadau hynny'n cyflawni safonau fframwaith polisi moeseg y brifysgol a gofynion y ddogfen honno.

Bydd y telerau fel rheol yn cynnwys manylion am yr ymchwil a swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ymchwilydd. Mae'n rhaid trafod ymlaen llaw gytundebau'n ymwneud â chyfrinachedd a pheidio â datgelu gwybodaeth.

Mae'n rhaid gwneud trefniadau eiddo deallusol yn unol â Pholisi Hawliau Eiddo Deallusol y brifysgol. Dylai cytundebau ynglŷn â hawliau eiddo deallusol fod yn glir o'r dechrau.

Wrth gyflwyno papurau ymchwil i'w cyhoeddi, mae'n rhaid i awduron ddatgan unrhyw ffynonellau cyllido perthnasol neu unrhyw faterion eraill a allai fod yn achos o wrthdaro buddiannau neu a allai beryglu gwrthrychedd yr ymchwil.<sup>10</sup>

#### **4.7 Canlyniadau Amgylcheddol Ymchwil**

Dylai ymchwilwyr roi ystyriaeth i effaith eu gwaith ar yr amgylchedd. Lle bo'n briodol, dylai ymchwilwyr gynnal asesiadau amgylcheddol i sicrhau nad yw eu projectau'n debygol o gael effaith niweidiol sylweddol ar yr amgylchedd. Dylai ymchwilwyr gysylltu â'r PMYA perthnasol yn eu coleg neu eu hysgol i gael arweiniad pellach ar y mater hwn.

Mae'r polisi'n cymryd y bydd projectau ymchwil yn cydymffurfio â pholisiau a chanllawiau'r brifysgol ar yr amgylchedd, e.e. Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a Gwaredu Gwastraff Peryglus. Mae'r ddau ar gael o Uned Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol y brifysgol. Dylai ymchwilwyr ymgynghori hefyd â Pholisi Cynladwyedd y brifysgol lle trafodir materion a all effeithio ar yr amgylchedd.

### **5. PROSES ADOLYGIAD MOESEGOL**

Mae'r adran hon yn rhoi arweiniad i ymchwilwyr ar broses adolygiad moesegol y brifysgol.

Mae Prifysgol Bangor wedi sefydlu proses dau gam i adolygu a chymeradwyo cynigion ymchwil yn foesegol – sef adolygiad wedi'i frysio ac adolygiad pwyllgor llawn. Caiff y ddau eu cynnal naill ai gan bwyllgor moeseg academiaidd (i ymchwil gyda phobl) neu'r Pwyllgor Projectau Anifeiliaid (i ymchwil gydag anifeiliaid).

Yn ogystal â chael cymeradwyaeth y PMYA perthnasol, ac yn dilyn y gymeradwyaeth honno, rhaid hefyd cyfeirio ymchwil at bwyllgor moeseg GIG pan ddaw o dan ofynion y *Governance Arrangements for Research Ethics Committees* (GAfREC)<sup>11</sup> ar gyfer projectau ymchwil penodol.

Mae'n rhaid cyflwyno pob cais am adolygiad moesegol i bwyllgor moeseg ymchwil y GIG yn y DU trwy'r ffurflen gais genedlaethol safonol, sydd ar gael ar wefan yr Integrated Research Application System (IRAS)<sup>12</sup>.

Pan gyflwynir cynnig am gyllid dylid fel rheol cyflwyno cynigion ymchwil i'w hadolygu gan y PMYA yn syth ar ôl cael gwybod bod y cyllid wedi cael ei ganiatáu. Ond efallai y bydd ymchwilwyr hefyd yn dymuno cyflwyno cynnig i'r PMYA cyn cynnal astudiaeth peilot fel bod buddiannau cyfranogwyr yn cael eu diogelu; cyn ceisio cytundeb drwy safleoedd ymchwil posib a'u gweinyddwyr er mwyn cael sicrwydd bod y cynllun ar dir cadarn; neu cyn dechrau ar y prif waith o gasglu data.

---

10 Ceir rhagor o gyfarwyddyd yn y *Polisi Datganiadau Buddiant* sydd ar wefan y Brifysgol

11 <http://www.hra.nhs.uk/resources/research-legislation-and-governance/governance-arrangements-for-research-ethics-committees/>

12 <https://www.myresearchproject.org.uk/Signin.aspx>



## 5.1 Cymeradwyaeth gan PYMA

- a) Mae PMYA yn gyfrifol am gynnal adolygiad moesegol o bob ymchwil sy'n cynnwys pobl lle ceir mwy na'r risg lleiaf posib<sup>13</sup>. Wrth gynnal adolygiad o'r fath dylai PMYA weithredu'n annibynnol oddi wrth yr ymchwilwyr y maent yn ystyried eu cynigion a hefyd oddi wrth fuddiannau personol neu ariannol eu haelodau. Ceir disgrifiad o gyfansoddiad pwyllgor moeseg ymchwil yn Atodiad 2.
- [b] Ystyrir y gweithgareddau ymchwil canlynol fel rheol fel rhai sy'n cynnwys mwy na'r risg lleiaf posib ac sydd, felly, angen adolygiad moesegol gan y PMYA perthnasol:
- i) Ymchwil sy'n ymwneud â grwpiau hawdd eu niweidio - er enghraifft, plant a phobl ifanc, oedolion hawdd eu niweidio, megis rhai ag anabledd dysgu neu amhariad gwybyddol, neu unigolion mewn perthynas ddibynnol neu anghyfartal.
  - ii) Ymchwil sy'n ymwneud â materion sensitif - er enghraifft, ymddygiad rhywiol y rhai sy'n cymryd rhan, eu hymddygiad anghyfreithlon neu wleidyddol, eu profiad o drais neu gamdriniaeth, eu hiechyd meddwl, neu eu statws gender neu ethnig.
  - iii) Ymchwil yn ymwneud â grwpiau lle mae angen caniatâd didolwr fel rheol i gael at yr aelodau yn y lle cyntaf.
  - iv) Ymchwil sydd o reidrwydd yn ymwneud â thwyll neu a gynhelir heb gydsyniad llawn a gwybodus y rhai sy'n cymryd rhan ar yr adeg pan gynhelir yr astudiaeth.
  - v) Ymchwil lle defnyddir cofnodion o wybodaeth bersonol neu gyfrinachol, yn cynnwys gwybodaeth enetig a biolegol, yn ymwneud ag unigolion y gellid eu hadnabod.
  - vi) Ymchwil fyddai'n gallu achosi straen seicolegol, pryder neu gywilydd neu achosi mwy na phoen ysgafn iawn.
  - vii) Ymchwil yn cynnwys ymyriadau ymwthiol - er enghraifft, rhoi cyffuriau neu sylweddau eraill, ymarfer corff caled (i unigolion sydd mewn perygl), neu dechnegau fel hypnotherapi.
- [c] Mae PMYA yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir system gynhwysfawr o gadw cofnodion sy'n amlinellu'r dull o wneud penderfyniadau, y sail resymegol dros y penderfyniad, a hefyd am gofnodi'r penderfyniad terfynol yn glir. Dylai penderfyniad y PMYA ynghyd ag unrhyw sylwadau cysylltiedig i'r ymchwilwyr gael eu cofnodi'n glir a dylent fod ar gael i'w harchwilio, a dylai gweithdrefnau sicrhau tryloywder ac atebolrwydd penderfyniadau PMYA a chynnal cyfrinachedd pan fo'i angen.

## 5.2 Cymeradwyaeth gan y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol (AWERB)

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am wneud adolygiad moesegol o bob ymchwil gydag anifeiliaid. Dylai'r Bwrdd gynnal adolygiad moesegol trylwyr ac annibynnol. Ceir cyfansoddiad a chylch gorchwyl y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn Atodiad 2. Anogir ymchwilwyr hefyd i ddarllen *Proses Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol* y brifysgol.

## 5.3 Adolygiad Brys

Lle bo'r angen, gall PMYA gynnal adolygiad moesegol brys. Dim ond mewn achosion lle mae'r potensial o achosi niwed i rai'n cymryd rhan, ac eraill y gall yr ymchwil effeithio arnynt, yn fychan iawn neu lle mae projectau ymchwil i'w cyflawni mewn cyfnod byr ac wedi eu comisiynu mewn ymateb i fater o bwysigrwydd brys y gellir cynnal adolygiad brys.

---

13 Efallai y bydd ymchwilwyr hefyd yn dymuno darllen y cod ymarfer proffesiynol sy'n berthnasol iddynt hwy am ragor o gyfarwyddyd.

Mae'n rhaid bod gan PMYA ddulliau gweithredu pendant ar gyfer cynnal adolygiad brys. Mae'n rhaid iddynt gynnwys:

- Meini prawf ar gyfer adnabod ymchwil sy'n cynnwys y risg lleiaf posib
- Yr is-bwyllgor neu'r cadeirydd sy'n gyfrifol am adolygu'r ymchwil a chwmpas eu hawdurdod
- Ffurflenni a gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i gael arolwg brys
- Gweithdrefnau i adrodd am benderfyniadau i'r prif bwyllgor

Dylai PMYA gynnal archwiliadau blynyddol ar hap-sampl bychan o'r cynigion hynny yr ymdriniwyd â hwy dan yr adolygiad brys a dylid adrodd am yr archwiliadau yng nghyfarfod nesaf y PMYA

#### **5.4 Cymeradwyaeth gan y Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif**

Mae'r Grŵp yn gyfrifol am gynnal adolygiad moesegol o bob ymchwil sensitif fel y diffinnir gan y *Drefn i Gymeradwyo a Chofrestru Projectau Ymchwil Sensitif*. Lle bydd Cadeirydd y PMYA perthnasol yn ystyried bod y cynnig ymchwil yn dod o dan un o'r categorïau a amlinellir yn Adran 2 y Drefn, neu os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch ei sensitifrwydd, dylent gysylltu â Phennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio'r Brifysgol cyn gynted ag y bo modd a dylent gynnwys y cais / cynnig ymchwil a gyflwynwyd i'r PMYA gan yr ymchwilydd.

### **6. HYFFORDDIANT A CHYFARWYDDYD**

#### **6.1 Hyfforddiant**

Bydd y brifysgol yn cynnig sesiynau hyfforddiant a chyfarwyddyd i aelodau staff perthnasol a chânt eu cydlynu a'u hwylyso gan y Swyddfa Llywodraethu a Chydymffurfio.

Lle bo'r angen, bydd yr hyfforddiant ar gael i ymchwilwyr unigol, aelodau o Bwyllgor Moeseg y Brifysgol, yr AWERB a PMYA yn cynnwys aelodau lleyg o'r pwyllgorau, ac unrhyw fyfyrwyr y gall eu projectau fod angen adolygiad moesegol.

#### **6.2 Cyfarwyddyd**

Bydd y brifysgol yn rhoi cyfarwyddyd a chefnogaeth trwy ddarparu nodiadau canllaw ysgrifenedig o bryd i'w gilydd, adnoddau y gellir mynd atynt o dudalennau gwe y Swyddfa Cynllunio a Llywodarethu, a chefnogaeth gan staff gweinyddol perthnasol.

### **7. CAMYMDDWYN GYDA MOESEG YMCHWIL**

Mae'r gweithdrefnau i ymdrin â chamymddwyn posib o ran moeseg ymchwil i'w cael yng Nghod Ymarfer y Brifysgol ar gyfer Sicrhau Dilysrwydd Academaidd a Sicrhau Ansawdd mewn Ymchwil. Pennir bod methu â chael caniatâd moesegol perthnasol yn ymarfer annheg a chaiff ei gynnwys fel y cyfryw yn y Drefn Ymarfer Annheg<sup>14</sup>.

Diwygiwyd (2016) gan gyfeirio at *Framework for Research Ethics* yr ESRC a'r *Governance Arrangements for Research Ethics Committees* (GAfREC).

---

14 <https://www.bangor.ac.uk/regulations/BUProc05-v201502.pdf>

## Atodiad 1

### Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl Pwyllgorau Perthnasol

#### 1. Pwyllgor Moeseg y Brifysgol

##### *Cyfansoddiad*

Cadeirydd: Penodir gan Gyngor y Brifysgol

##### *Ex-officio:*

Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil)

Cadeirydd, Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol  
Cadeiryddion Pwyllgorau Moeseg Ymchwil Academaidd  
Llywydd Undeb y Myfyrwyr

##### *Wedi eu penodi:*

2 aelod lleyg o'r Cyngor

2 aelod o'r Senedd

*Bydd hawl gan y pwyllgor i gyfethol dim mwy na dau o bobl eraill, naill ai o fewn y brifysgol neu'r tu allan iddi. Bydd aelodau a gyfetholwyd yn gwasanaethu yn y swyddogaeth honno am gyfnod o 3 blynedd a gellir eu hailbenodi am un cyfnod pellach o 3 blynedd.*

##### *Cylch Gorchwyl*

1. Cyngori'r Cyngor a'r Pwyllgor Gweithredu ar faterion cyffredinol yn ymwneud â moeseg (yn arbennig ymchwil) yn cynnwys, os yw'n briodol, ganllawiau ar yr hyn y dylai'r brifysgol ei ystyried yn dderbyniol yn foesebol.
2. Sefydlu fframwaith cyffredinol ar gyfer gweithredu pwyllgorau moeseg academaidd a sicrhau, lle caiff y cyfryw bwyllgorau eu sefydlu, eu bod yn gweithio o fewn y canllawiau a'r safonau cyffredinol a bennwyd gan y pwyllgor.
3. Derbyn adroddiadau'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol a chynghori'r Cyngor ynglŷn â hwy.
4. Monitro gwaith y gwahanol bwyllgorau moeseg academaidd ac adrodd arnynt i'r Cyngor, er y cydnabyddir mai prif swyddogaeth y cyfryw bwyllgorau yw cynghori'r adran dan sylw.
5. Gweithredu ar unrhyw fater arall sy'n gyson â'r uchod fel bo'r angen gan y Cyngor.
6. Adrodd i'r Cyngor.

#### 2. Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol

Bydd gan y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yr aelodaeth ganlynol (fel sy'n ofynnol yn Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 6 y Ddeddf)

##### Aelodau Craidd

- Y Swyddog Milfeddygol Penodedig
- Y Swyddog Gofal a Lles Anifeiliaid Penodedig
- Ieaf un a hyd at ddau Ddeiliad Trwydded Project a / neu Ddeiliad Trwydded Bersonol

Gwahoddir yr unigolion canlynol hefyd:

- Y Deiliad Trwydded Sefydliadol
- Uwch aelod o Staff Technegol Gofal Anifeiliaid

- Hyd at dri aelod cyfetholedig nad ydynt yn dal trwydded dan y Ddeddf
- Aelod lleig sydd â diddordeb mewn lles anifeiliaid a / neu foeseg
- Aelod o Wasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am gydymffurfiaid â'r Ddeddf a'r canllawiau, polisi a phrosesau cysylltiedig.

Bydd y Deiliad Trwydded Sefydliadol (pan fo'n bresennol) yn cadeirio'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol fel rheol, ac yn ei absenoldeb bydd y Swyddog Gofal a Lles Anifeiliaid Penodedig yn cadeirio. Bydd gan Arolygydd y Swyddfa Gartref hefyd hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Corff.

Bydd y Corff â chworum pan fydd yr aelodau craidd yn bresennol neu pan fyddant wedi cael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniad.

Bydd unrhyw un a gyfetholir yn gwasanaethu fel aelod o'r pwyllgor am gyfnod o dair blynedd i ddechrau a gellir ei ailbenodi i wasanaethu am un cyfnod pellach o 3 blynedd.

Mae aelodaeth y Corff yn cynnwys y rheiny sydd â chyfrifoldebau a dyletswyddau diffiniedig sydd wedi'u pennu yn y *Premises Establishment Licence*. Bydd gan yr aelod cyfetholedig diddordeb mewn lles a / neu foeseg anifeiliaid, ond ni fyddant yn cymryd rhan mewn unrhyw waith dan y Ddeddf.

Bydd gwaith y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol fel yr amlinellir yn Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 6(3) y Ddeddf, sef:

- a) cynghori staff sy'n ymdrin ag anifeiliaid yn y sefydliad trwyddedig ar faterion yn ymwneud â lles anifeiliaid, mewn perthynas â'u caffael, eu hamodau byw, eu gofal a'r defnydd ohonynt;
- b) cynghori ar gymhwyso egwyddorion y 3R (sef *Replacement, Reduction and Refinement*) a rhoi gwybod am ddatblygiadau technegol a gwyddonol perthnasol;
- c) sefydlu ac adolygu prosesau rheoli a gweithredu o ran monitro, adrodd a dilyniant mewn perthynas â lles anifeiliaid a gedwir neu a ddefnyddir yn y sefydliad trwyddedig;
- d) dilyn datblygiad a chanlyniad projectau (adolygiad ôl-weithredol) a gyflawnir yn y sefydliad, gan gymryd i ystyriaeth yr effaith ar yr anifeiliaid a ddefnyddir; a nodi a chynghori ar elfennau a allai gyfrannu ymhellach at y 3R; a
- e) chynghori ar gynlluniau ail-gartrefu, yn cynnwys cymdeithasoli'r anifeiliaid sydd i'w hail-gartrefu.

Gwireddir y nodau hyn trwy waith y Corff yn cyflawni tair prif swyddogaeth y broses lles anifeiliaid ac adolygu moesegol (fel yr amlinellir yn y *Broses Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol*).

### **3. Pwyllgor Moeseg Ymchwil Academaidd (PMYA)**

Dylai bod gan bob coleg o leiaf un PMYA (gweler yr amod dan adran 3.2.[c]).

#### *Cyfansoddiad*

Dylai aelodau PMYA adlewyrchu'r canlynol:

- a) Dylai PMYA gael cadeirydd a benodwyd ymlaen llaw gan Ddeon y coleg perthnasol.<sup>15</sup>
- b) Lle bo modd, dylai PMYA fod yn amlddisgyblaethol a cheisio cynnwys amrywiaeth eang o aelodau (e.e. o ran gender ac ethnigrwydd)
- c) Dylai aelodau PMYA (ac eithrio aelodau lleig) fod â'r profiad a'r arbenigedd angenrheidiol yn y meysydd ymchwil a adolygir yn rheolaidd gan y PMYA a dylent fod yn uchel eu parch ymysg y gymuned ymchwil.

---

<sup>15</sup> Bydd cadeirydd PMYA yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd, a gellir ei ailbenodi i wasanaethu am un cyfnod pellach o 3 blynedd trwy gytundeb â Deon y coleg perthnasol.

- d) Argymhellir y dylai PMYA gynnwys o leiaf un aelod lleyg o'r gymuned leol heb unrhyw gysylltiad â'r brifysgol<sup>16</sup> a chyda sgiliau sy'n berthnasol i'r PMYA dan sylw.
- e) Mae'n fanteisiol i PMYA gael o leiaf un myfyriwr yn aelod <sup>17</sup>.

*Swyddogion a all fod yn bresennol:*

Aelod o Wasanaethau Corfforaethol gyda chyfrifoldeb dros foeseg.

Awgrymir y dylai PMYA gynnwys o leiaf saith aelod, a bod angen i o leiaf pump ohonynt fod yn bresennol i gael cworwm. Dylai'r PMYA hefyd gael trefn ar gyfer cyfarfodydd lle na cheir cworwm ynddynt.

---

16 Gall aelodau lleyg fod yn gyn aelodau staff y brifysgol ar yr amod nad ydynt wedi gweithio i'r brifysgol mewn unrhyw ffordd yn y pum mlynedd cyn eu penodi i'r pwyllgor. Bydd aelodau lleyg yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd, a dylid rhoi'r dewis iddynt i drosglwyddo i bwyllgor moeseg academaidd arall yn y brifysgol ar ddiwedd y cyfnod hwn.

17 Efallai y byddai PMYA yn dymuno ystyried penodi myfyriwr PhD neu fyfyrwr ôl-ddoethurol fel cynrychiolydd gan y byddent fel rheol yn fyfyrwyr yn y brifysgol am fwy na blwyddyn.